# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR CYNGHORI'R CABINET – DATBLYGU

## A GYNHALIWYD YN YSTAFELL BWYLLGOR 5, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DYDD MERCHER, 21 MEDI 2016 AM 3.00 PM

**YN BRESENNOL**: Bu'r Cynghorydd P Downing (Cadeirydd) yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| R D Lewis | P Lloyd | P B Smith |
| G J Tanner | C Thomas | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Martin Bignell | Rheolwr Gwasanaethau Coed |
| Allison Lowe | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Lisa Wells | Rheolwr Canol y Ddinas |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): P M Matthews a/ac T M White

### 28 DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

### 29 COFNODION.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Ddatblygu a gynhaliwyd ar 17 Awst 2016 fel cofnod cywir.

### 30 MARCHNAD ABERTAWE.

Rhoddodd Rheolwr Canol y Ddinas yr wybodaeth ddiweddaraf er mwyn galluogi'r pwyllgor i ystyried ei ymagwedd at ddarparu toiledau cyhoeddus ym Marchnad Abertawe.

Roedd yr adroddiad yn dilyn cyflwyniad ac adroddiad llafar a ddarparwyd ar 16 Mawrth 2016 a'r cyfarfod safle a gynhaliwyd ar ôl hynny ar 18 Ebrill 2018.

Aeth ati i dynnu sylw at y ffaith bod oddeutu 90,000 o bobl yn dod i'r farchnad bob wythnos, yn ôl data ymwelwyr. Dros y misoedd diwethaf, mae marchnadoedd ar draws y DU yn adrodd bod llai o bobl yn ymweld â hwy ac adlewyrchir hyn yn y data ar gyfer Abertawe; fodd bynnag, roedd y farchnad newydd ennill y wobr am roi'r "Profiad Gorau i Ymwelwyr" yng Ngwobrau Swansea Life.

Soniodd am y toiledau presennol yng nghanol y ddinas a'r opsiynau o ran addasu unedau penodol yn y farchnad, a welwyd gan aelodau yn ystod yr ymweliad â'r safle. Fodd bynnag, y farn oedd nad oedd yr un o'r opsiynau'n cynnig ateb ymarferol. Felly, argymhellwyd diystyru'r opsiynau hyn a cheisio datblygu toiledau fel rhan o uwchgynllun ehangach mewn cysylltiad â Strategaeth Adfywio'r Farchnad.

**PENDERFYNWYD:**

1) Diystyru opsiynau rhagarweiniol i osod toiledau yn y farchnad yn y tymor byr;
2) Darparu'r ystadegau o ran data ymwelwyr ar draws y DU ar gyfer y cyfarfod nesaf;
3) Diweddaru'r wybodaeth ar wefan y cyngor am y toiledau sydd ar gael yng nghanol y ddinas ac ar draws Abertawe;
4) Cyflwyno a thrafod yr uwchgynllun yng nghyfarfod nesaf Pwyllgor Cynghori'r Cabinet.

## 31 NEILLTUO STRYD Y GWYNT I GERDDWYR (LLAFAR).

Cyflwynodd Rheolwr Canol y Ddinas ddiweddariad llafar i'r pwyllgor fel a ganlyn:

Esboniodd fod Rhanbarth Gwella Busnes (BID) Abertawe eisoes wedi ymgynghori'n anffurfiol â'i aelodau ar droi Stryd y Gwynt yn barth cerddwyr a bu'r canlyniadau yn gefnogol o'r cynllun yn gyffredinol.

Ar ôl hynny, gofynnwyd i Reolwr Canol y Ddinas gynorthwyo wrth gysylltu â'r gymuned fusnes i geisio ymgynghoriad ffurfiol ar y cynnig.

Felly, cafodd arolwg ei greu a'i ddosbarthu â llaw gan geidwaid canol y ddinas i 213 eiddo (dosbarthwyd 284, ond roedd 71 wedi'u dyblygu neu aethant i eiddo a oedd yn wag), a oedd yn cynnwys eiddo busnes a phreswyl yn yr ardal. Pennwyd 5 Medi 2016 fel y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno holiaduron wedi'u cwblhau; fodd bynnag, oherwydd cyfradd ddychwelyd wael, cafwyd estyniad tan 16 Medi 2016 i alluogi'r ceidwaid i ddychwelyd i sawl busnes/eiddo er mwyn ceisio ymatebion.

Daeth cyfanswm o 50 (23%) holiadur wedi'i gwblhau i law, 41 gan fusnesau a 9 gan breswylwyr. Gan fod y dyddiad cau wedi'i ymestyn, nid oedd yr ymatebion wedi'u dadansoddi'n llawn eto. Fodd bynnag, roedd y cwestiwn "A ydych yn cefnogi'r egwyddor o droi Stryd y Gwynt yn barth cerddwyr?" wedi'i archwilio'n fras. Roedd 66% wedi ymateb 'Ydw', roedd 20% wedi dweud "Nac ydw", "Wn i ddim" oedd ateb 10%, ac nid atebodd 4% y cwestiwn. O'r ymatebion, roedd 68.2% o fusnesau'n cefnogi'r cynnig ac roedd mwy o breswylwyr yn cefnogi'r cynllun yn hytrach na'i wrthod.

**PENDERFYNWYD:**

1) Nodi'r diweddariad llafar;
2) Cyflwyno dadansoddiad llawn o'r canlyniadau yn y cyfarfod nesaf.

## 32 POLISI COED.

Cyflwynodd Rheolwr Gwasanaethau Coed y polisi coed o safbwynt Parciau.

Roedd y cyflwyniad yn amlinellu'r canlynol:

1. Beth yw polisi coed?
2. Beth yw nodau polisi coed?
3. Pwyntiau i'w cynnwys mewn polisi o fewn cylch gwaith yr Uned Gwasanaethau Coed.

Byddai angen ar bolisi coed fewnbwn a chytundeb yr holl adrannau y mae coed a choetiroedd ar eu tir yn ogystal ag adrannau eraill sy'n gyfrifol am goed, coetiroedd, yr amgylchedd a phlannu coed, er mwyn cael un polisi sy'n dod â'r holl wybodaeth ynghyd. Byddai angen i'r polisi fod yn gyfyngol hefyd er mwyn diogelu ein coed, yn ogystal â rhoi gwybod i'r cyhoedd am yr hyn y gellid ei wneud a'r hyn na ellid ei wneud o ran coed.

Pwysleisiodd fod trefn archwilio reolaidd ar waith a byddai manylion ohoni'n cael eu cynnwys yn y polisi. Cadarnhaodd ei fod hefyd yn cydgysylltu â'r Cynorthwy-ydd Tirlunio (Tyfwr Coed) yn yr Adran Gynllunio o ran yr argymhellion a wnaed gan y Gweithgor Craffu Cadw Coed.

Diolchodd y cadeirydd i'r swyddog am ddarparu'r cyflwyniad diwygiedig i'r polisi.

**PENDERFYNWYD:**

1) Y bydd y cyfarfod nesaf yn canolbwyntio'n fwy manwl ar nodau'r polisi ac ymhelaethu arnynt;
2) Cyflwyno rhestr o'r adrannau y mae coed ar eu tir ar gyfer y cyfarfod nesaf.

## 33 ADOLYGIAD O DIPIO ANGHYFREITHLON.

Darparwyd rhestr o ffigurau ceisiadau gwasanaeth misol ar gyfer y pwyllgor gan Swyddog Adrannol Rheoli Gwastraff ac Arweinydd Tîm Gorfodi, Tipio'n Anghyfreithlon a Sbwriel.

**PENDERFYNWYD:**

1) Y dylid nodi'r ystadegau;
2) Y bydd y Cadeirydd yn adrodd yn ôl i Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd a Chludiant.

## 34 Y DIWEDDARAF GAN Y CADEIRYDD (LLAFAR).

Nid oedd unrhyw eitemau i adrodd amdanynt.

35 **CYNLLUN GWAITH.**

Cyflwynodd y Cadeirydd y Cynllun Gwaith ar gyfer 2016-17.

**PENDERFYNWYD:**

1) Nodi'r Cynllun Gwaith;
2) Ychwanegu'r polisi coed, Marchnad Abertawe a throi Stryd y Gwynt yn barth cerddwyr at agenda'r cyfarfod nesaf, a drefnir ar gyfer 19 Hydref 2016.
3) Y bydd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd yn cydgysylltu â'r swyddog perthnasol o ran ystadau tai sy'n cynnwys strydoedd heb eu mabwysiadu i'w cynnwys mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Daeth y cyfarfod I ben am 4.07 pm

**CADEIRYDD**